GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# ACAMPROSATE
## Taflen wybodaeth i gleifion

ABSDAS

---

**(Cyn dechrau triniaeth, darllenwch daflen wybodaeth y gwneuthurwr yn y pecyn meddyginiaeth)**

**Ar gyfer beth mae'n cael ei defnyddio?**
Mae'n cael ei defnyddio i leihau'r awydd am alcohol mewn cleifion sydd wedi rhoi'r gorau i yfed, er mwyn eu helpu i barhau i beidio ag yfed alcohol.

**Sut mae'n gweithio??**
Mae gan acamprosate strwythur tebyg i negeswyr cemegol (niwrodrosglwyddydd) yn yr ymennydd sy'n rhwystro mathau penodol o weithgarwch yn yr ymennydd, a chredir bod acamprosate yn cryfhau'r effeithiau hyn. Mae'r hyn sydd yn digwydd yn yr ymennydd yn helpu i leihau eich awydd am alcohol.
Dim ond ar ôl i chi roi'r gorau i yfed alcohol yn llwyr y mae acamprosate yn effeithiol, a bydd yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â rhaglen gwnsela i'ch helpu i beidio ag yfed alcohol. Mae'n bwysig sylweddoli y bydd angen i chi ddefnyddio eich penderfyniad a'ch cryfder ewyllys eich hun er mwyn osgoi dechrau yfed eto, a bydd cwnsela yn helpu gyda hyn.

**Sut ydw i'n ei gymryd?**
- Dylid cymryd tabledi acamprosate gyda bwyd neu ar ôl bwyta. Dylid llyncu'r tabledi yn gyfan gyda diod o ddŵr. Ni ddylid torri, cnoi na malu'r tabledi, gan y gallai hynny niweidio'r 'haen amddiffynnol arbennig' ar y tabledi.
- Y dos arferol ar gyfer oedolion sy'n pwyso 60kg neu fwy yw dwy dabled i'w cymryd dair gwaith y dydd gyda phrydau bwyd.
- Mae pobl sy'n pwyso llai na 60kg fel arfer yn cael presgripsiwn ar gyfer pedair tabled y dydd – dwy gyda brecwast, un gyda chinio ac un gyda'r pryd nos.
- Dylid dechrau triniaeth gyda thabledi acamprosate cyn gynted â phosibl ar ôl i chi lwyddo i roi'r gorau i yfed alcohol, a bydd y driniaeth yn parhau am flwyddyn fel arfer.

**Rhybudd!**
- Mae'n bwysig bod y driniaeth hon yn cyd-ddigwydd â chwnsela. Nid yw'r feddyginiaeth hon yn rhyw iachâd gwyrthiol a fydd yn atal yr awydd i yfed byth eto. Bydd angen amser, cefnogaeth, cryfder ewyllys a phenderfyniad i beidio ag yfed a dysgu byw heb alcohol.
- Nid yw'r feddyginiaeth hon yn lleddfu symptomau diddyfnu o alcohol ac nid yw'n atal yn barhaus effeithiau niweidiol camddefnyddio alcohol.

- Ni fydd parhau i yfed alcohol wrth gymryd y feddyginiaeth hon yn gwneud i chi deimlo'n sâl, ond bydd yn creu risg y bydd y driniaeth yn methu.

**Sgil-effeithiau**
Gall meddyginiaethau a'u sgil-effeithiau posibl effeithio ar bob un yn wahanol. Dyma rai o'r sgil-effeithiau sydd yn gysylltiedig â'r feddyginiaeth hon. Oherwydd bod sgil-effaith wedi'i nodi yma, nid yw'n golygu y bydd pawb sy'n defnyddio'r feddyginiaeth hon yn ei brofi nac yn profi unrhyw sgil-effaith arall chwaith.

***Cyffredin iawn (yn effeithio ar fwy nag 1 o bob 10 o bobl).***
- Dolur rhydd

***Cyffredin (yn effeithio ar rhwng 1 o bob 10 ac 1 o bob 100 o bobl)***

- Poen yn yr abdomen.
- Chwydu.
- Cyfog.
- Gwynt.
- Brech ar y croen neu gosi.
- Llai o awydd rhywiol.

***Anghyffredin (yn effeithio ar rhwng 1 ym mhob 100 ac 1 ym mhob 1,000 o bobl)***
- Mwy o awydd rhywiol

***Prin iawn (yn effeithio ar lai nag 1 ym mhob 10,000 o bobl)***
- Adweithiau alergaidd fel brechau croen difrifol, anaffylacsis, neu chwydd yn y gwefusau, y tafod a'r gwddf

Efallai nad yw'r sgil-effeithiau a restrir uchod yn cynnwys pob sgil-effaith a adroddwyd gan wneuthurwr y feddyginiaeth.

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw risgiau posibl eraill sy'n gysylltiedig â'r feddyginiaeth hon, darllenwch y wybodaeth a ddarperir gyda'r feddyginiaeth neu siaradwch â'ch meddyg neu fferyllydd.

**Sut gall y feddyginiaeth hon effeithio ar feddyginiaethau eraill?**
Mae'n bwysig dweud wrth eich meddyg neu fferyllydd pa feddyginiaethau rydych chi eisoes yn eu cymryd, gan gynnwys y rhai rydych yn eu prynu heb bresgripsiwn a meddyginiaethau llysieuol, cyn i chi ddechrau triniaeth gyda'r feddyginiaeth hon. Yn yr un modd, gwiriwch gyda'ch meddyg neu fferyllydd cyn cymryd unrhyw feddyginiaethau newydd tra'ch bod yn cymryd y feddyginiaeth hon, er mwyn sicrhau bod y cyfuniad yn ddiogel.

Nid oes tystiolaeth bod y feddyginiaeth hon yn effeithio ar feddyginiaethau eraill.

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English**